**Cyfarfod Llawn 2001 – 2002 (52)**

**Dydd Iau, 28 Chwefror 2002**

# AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am**

**Eitem 1**
**Cwestiynau i Jenny Randerson, y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 2**
**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 3**
**Cwestiynau TGCh i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 4**
**Datganiad: Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar Adolygiad o Leoliad Swyddfeydd y Cynulliad**

**Eitem 5**
**Cymeradwyo'r Adroddiad Grant Arbennig (rhif 4) (2002) ar Ddyraniadau Taliadau Trothwy Athrawon**
*NDM970* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan S88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 4) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Chwefror 2002.

Cliciwch yma i weld Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 4) (Cymru) 2002.

**Eitem 6**
**Dadl ar Ganlyniad Ad-drefnu Cyngor Celfyddydau Cymru**
*NDM972 -* Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

1. Croesawu cwblhau prif rannau Cynllun Ailstrwythuro Cyngor Celfyddydau Cymru, gan

gynnwys:

i. Gweithdrefnau newydd symlach i wella'r gwasanaeth i sefydliadau ac unigolion sy'n ceisio grantiau

ii. Datganoli gwasanaethau a chryfhau swyddfeydd rhanbarthol ledled Cymru

iii. Cryfhau tîm rheoli'r Cyngor a gweithdrefnau a systemau mwy effeithiol

2. Croesawu'r camau a gymerwyd mewn perthynas â strategaeth bum mlynedd ar gyfer datblygu'r celfyddydau, ac y bwriedir ei chwblhau erbyn dechrau haf 2002.

3. Croesawu cynnydd o bron i 23% yng nghyllideb Cyngor y Celfyddydau ar gyfer 2002-03 sy'n sicrhau sylfaen gadarnach ar gyfer ariannu'r celfyddydau.

Anfonwyd Cynllun Ailstrwythuro Cyngor Celfyddydau Cymru at yr Aelodau drwy e-bost ar 21.02.02.

Cliciwch yma i weld Cynllun Ailstrwythuro Cyngor Celfyddydau Cymru - Ar gael yn Saesneg yn unig.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol*

*(1)+(4)+(5)+(6)*
*(2)+(3)*

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd 1(ii):
", gan sefydlu swyddfa ar wahân yn Ne Cymru, wedi ei lleoli yn y Cymoedd."

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3:
" , ond yn galw am i'r rhan fwyaf o'r cynnydd hwn gael ei roi i grwpiau celf a buddiolwyr yn hytrach na'i wario ar weinyddu Cyngor y Celfyddydau."

**3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Cydnabod bod angen am wella hyder y cyrff celfyddydol yn y corff cyhoeddus hwn a noddir gan y Cynulliad, gan eu bod yn parhau'n amheus iawn o Gyngor Celfyddydau Cymru.

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Cymeradwyo'r argymhelliad yn y Cynllun Ailstrwythuro bod yn rhaid i'r Cyngor Celfyddydau ddangos ei fod yn agored ac yn ymgynghorol wrth ddatblygu polisi, er mwyn gwella ei berthynas ag ymarferwyr ym maes y celfyddydau a'r cyhoedd yn gyffredinol.

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Cydnabod bod yn rhaid i benderfyniadau ariannu a wneir gan y Cyngor ar ôl ei ailstrwythuro gael eu gwneud ar sail asesiad a gwerthusiad rheolaidd a gwrthrychol.

**6. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Cyfarwyddo'r Gweinidog i sicrhau y cedwir costau ailstrwythuro'r Cyngor i'r lleiafswm fel bod cymaint o arian ag y bo modd yn cael ei ddyrannu i brosiectau celf ledled Cymru yn hytrach nag ar fiwrocratiaeth.

**Eitem 7**
**Dadl ar y Strategaeth Ieithoedd Tramor Modern Genedlaethol a Chymeradwyo'r Strategaeth**
*NDM971* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:

1. nodi, gyda phryder, y gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n dysgu ieithoedd tramor;

2. croesawu'r Strategaeth Ieithoedd Tramor Modern Genedlaethol a'r gweithredu arfaethedig a nodir; a

3. gwahodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i argraffu'r strategaeth a'i dosbarthu'n eang yn y sectorau addysg a hyfforddiant.

Anfonwyd y Strategaeth Ieithoedd Tramor Modern Genedlaethol at yr Aelodau drwy e-bost ar 21.02.02.

Cliciwch yma i weld y Strategaeth Ieithoedd Tramor Modern Genedlaethol.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol*

*(1)+(2)*

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Cydnabod bod angen gweithredu ar frys i fynd i'r afael â'r gyfradd isel sy'n dewis astudio ieithoedd tramor yng Nghymru.

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Mynegi pryder am ein gallu i gystadlu yn Ewrop yn y dyfodol, o ganlyniad i'r gostyngiad yn y nifer sy'n dysgu ieithoedd tramor.

**Eitem 8**
**Dadl Fer:**
***NDM969*** **Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Ffermydd Gwynt**

**Dylai'r cyfarfod ddod i ben erbyn 12.35pm**

*********************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Mawrth, 5 Mawrth 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**